

Welsh Language Scheme Bron Afon Community Housing Limited

Welsh Language Scheme prepared in accordance with the Welsh Language Act 1993 (the Act) and the Regulatory Code for Housing Associations in Wales, Welsh Assembly Government, March 2006.

This Scheme received the approval of the Welsh Language Board under section 14(1) of the Act on 30 March 2011.

1. Opening Statement

Aim of the Scheme

Bron Afon has adopted the principle, that in the conduct of public business in Wales, that it will treat the Welsh and English languages on the basis of equality. This scheme notes how we will operate that principle in providing services to the public in Wales.

Objectives

We acknowledge that members of the public can express their opinions and needs better in their chosen language. We also acknowledge that enabling the public to use the Welsh language is a matter of good practice rather than a concession, and that denying them the right to use their chosen language could place them in a disadvantaged position. We will therefore offer the public the right to choose which language to use when dealing with us, in accordance with the principle above.

2. Introduction

Background and Corporate Values

We are a unique, community based housing organisation based in Torfaen set up specifically to own, manage and improve the homes previously owned by Torfaen County Borough Council. We are:

- A major land owner in the County Borough, providing nearly 90% of affordable housing in the County Borough and providing services to several thousand older people in Torfaen.
- One of the largest construction businesses in South East Wales with an annual turnover in that area of our business of £34 million.
- A construction business that aims to develop our soft skills to provide a supportive approach for our tenants.

Our aims are to:

- Provide high-quality, energy efficient, affordable homes, high-quality communal areas, and excellent services to tenants and leaseholders in Torfaen.
- Promote and support vibrant, safe, clean and healthy communities working in close partnership with residents and the Council.
- Run an open and democratic organisation with high levels of community involvement.
- Use the resources we have to best effect in maximising other benefits to the community, including creating and sustaining local jobs, increasing skills, and minimising negative impact on the environment.
- Provide support for people who need it.

Our values reflect the joint views of tenants and staff about the kind of organisation they want Bron Afon to be. Bron Afon:

- Cares about people and communities.
- Is passionate about excellent service delivery.
- Is innovative and creative and willing to take risks.
- Listens and learns.

- Respects and values diversity and promotes equality of opportunity.
- Is trustworthy, open and honest in all it does.
- Is accountable to the communities it serves.
- Welcomes constructive challenge.
- Involves people in decisions that affect them.
- Has sustainability at the heart of its thinking.
- Is proud to be a non-profit-making social business delivering a public service.

Structure and Area of Operation

Bron Afon is owned by our tenants and residents in Torfaen, governed by a Board consisting of 15 members. A Membership Committee made up of 25 members holds the Bron Afon Board to account on behalf of Bron Afon Members and closely monitors the work of Bron Afon.

We employ over 400 members of staff. The majority of staff work from our Headquarters in Cwmbran.

Service Users

Our service users are primarily those looking for a home or tenants.

The Welsh Language

The **2001** census identified that within the County Borough of Torfaen 11.10% of the population aged 3 years and over were reported as able to speak Welsh.

8054 homes were transferred to Bron Afon from the Council in 2008. During 2007, a major consultation exercise took place with tenants which involved home visits to more than 90% of these tenants to explain the stock transfer process and ensure that they had the information they needed to enable them to make an informed choice in a tenants' ballot. All those visited were asked if they wanted to receive any information in Welsh and none did so at the time of the visit. Subsequently, one tenant did request the Offer Document in Welsh which was provided.

This policy has been framed on the basis that, at present, the Welsh-speaking population amongst those people who work with us who are known to us is very small in number but individuals may request and have the right to ask us to use Welsh if that is their preferred language. In relation to future potential users we want to ensure that they have equality of access to our services and jobs whatever their language of choice so we will produce access documentation bilingually. Lastly, we will promote and support the enhancement of the Welsh language through the provision of language training for our staff and members.

The arrangements will be kept under review and should circumstances change, we will ensure that the Language Scheme is reviewed to reflect changes in the community language profile and that resources are made available to reflect such circumstances.

The contact point for the Language Scheme is the Chief Executive, who can be contacted at Tŷ Bron Afon, William Brown Close, Llantarnam Industrial Park, Cwmbran, NP44 3AB, telephone 01633 620 111.

3. Planning and Delivering Services

Policies and Initiatives

In formulating new policies and initiatives, or in amending policies, we will assess their linguistic impact and make sure they are consistent with this Scheme and will ensure that the measures in the Scheme are implemented when new policies and initiatives are implemented.

We will consult the Welsh Language Board beforehand regarding any proposal which would directly affect this Language Scheme. This Scheme will not be amended without the prior agreement of the Welsh Language Board.

We will ensure that whoever is involved in the formulation of policies is aware of the Scheme and of our responsibilities under the Regulatory Code and the Welsh Language Act 1993.

Service Provision

We aim to deliver the same high standard of service in both Welsh and English.

We will ensure through clear information and signposting that those dealing with us are aware of how we can communicate with each other both in Welsh and English as required. All key documents will contain the following statement in Welsh:

“If you would like any of our information in Welsh please ask. You can do so by visiting us or writing to us at the address below or by telephoning 01633 620 111. If you would find it easier to talk to us in Welsh we can arrange for a Welsh speaker to be present at an appointment.”

This statement will also be displayed in all our reception areas.

We will endeavour to establish the chosen language of those dealing with us and strive to ensure that we have sufficient members of staff who are competent and confident enough to offer assistance and service to Welsh. Where necessary to ensure a high quality service we will supplement the language skills of our staff with professional translation services and these facilities will be readily available to avoid any unnecessary delay in service provision.

Services provided for the public by other organisations

Regulatory functions and third party services

Any contracts or arrangements made with a third party will be consistent with relevant sections of this Scheme.

Quality Standards

Services provided in Welsh and in English will be equal in quality and so far as possible we aim to provide them within the same timescales.

4. Dealing with the Welsh speaking Public

Correspondence

1. Bron Afon welcomes correspondence in Welsh.
2. All correspondence will be dealt with promptly and correspondence through the medium of Welsh should not in itself lead to any significant delay.
3. When someone writes to us in Welsh, we will provide a reply in Welsh (if a reply is needed).
4. We will keep a record of those persons who wish to deal with us in Welsh.
5. We will agree arrangements for correspondence and for arranging translation.

Communication over the telephone

1. Bron Afon welcomes personal enquiries in Welsh or English.
2. Our switchboard staff will answer telephone calls with a bilingual greeting.
3. In order to achieve the aim of treating the Welsh and English languages on an equal basis, we will take the following steps to enable Welsh speakers to deal with us in Welsh over the telephone:
 - Provide an internal directory of Welsh speakers to whom calls can be transferred.
 - Provide staff with guidelines on how to deal with telephone calls from Welsh speakers and ensure that they are familiar with the arrangements.

Public Meetings

1. When public meetings are held by Bron Afon, including conferences and other similar events, those present will be welcome to contribute through the medium of Welsh or English.
2. When there are Welsh speakers among those invited to attend, or if it is known that Welsh speakers intend to be present, translation facilities should be arranged.

As well as translation equipment, we will assess the need for members of staff who speak Welsh to be present to welcome the public and to deal with their inquiries. Our staff will make their language abilities evident at meetings, for example, by greeting people bilingually and using the Welsh Language Board's "Iaith Gwaith" badges.

Other meetings

We welcome meetings with the public in Welsh or in English, but due to the shortage of Welsh speakers, we cannot guarantee a face to face meeting in Welsh. In such circumstances we will politely explain the situation and offer other options, such as organising translation or proceeding with the meeting in English.

Communicating with the public in other ways

We will consider the best ways of meeting the needs of Welsh speakers in whichever way we deal with the public.

5. The Public Face of Bron Afon

Corporate Identity and signs

We have a bilingual identity promoting Bron Afon and our premises and services using a bilingual logo.

When we renew or re-erect any signs we will ensure that the new versions are totally bilingual. Signs erected for the first time will be totally bilingual.

The size, standard of clarity and prominence of the words on the signs will respect the principle of language equality.

Publishing and Printing Materials including forms and explanatory materials

We will produce documents that are needed to access our services for the first time in both languages.

This will include:

- Leaflets explaining how to become a tenant, how to apply for jobs and how to join as a member, how to contact us.
- Application forms for housing, employment and membership.
- A summary of our Welsh language Scheme explaining people's rights to deal with us in Welsh if they wish to.

We will produce these documents separately in each language giving people the choice of which language version they require. We will keep this under review on a yearly basis as the Scheme progresses.

www.bronafon.org.uk

Our website is mainly in English but we will ensure that:

- Our Welsh Language Scheme will be posted on our website.
- The access information referred to above is also available in Welsh through our website including a webpage explaining in Welsh how people can deal with us using the Welsh language if they wish to.

Press Releases and presentations

Usually, these will be issued in English. There may be notices or events where bilingual presentation is considered appropriate; this will be provided.

6. Implementation and Review of the Scheme

Staffing and recruitment

We will make arrangements to ensure, to the extent that it is reasonably practical, that workplaces which have contact with the public have access to staff with appropriate Welsh language skills to enable those workplaces to provide a service in Welsh. The degree to which this is necessary or possible will vary, depending on the service and on the area.

In order to ensure that we have appropriate Welsh language skills in the correct places, we will follow the following process:

- We will note those workplaces and posts where the ability to speak Welsh is desirable or essential.

- We will conduct an audit every year to establish the number of staff who have Welsh language skills, as well as their level of ability and location.
- The results of these two exercises will be compared in order to identify workplaces where there is a shortage of staff with appropriate skills in the Welsh language.

We will respond to any lack of skills by means of recruitment or training.

We will also provide awareness training for staff with regard to the requirements of this Scheme. Our standard practice will be to include such training in the induction of new staff.

Welsh Language Training

We will undertake to support staff to learn Welsh wherever it is able to do so. The type of language training offered to staff will be appropriate to each individual's personal and professional needs, and the requirements of the organisation's business, but could include:

- General introduction to the language for complete learners.
- Confidence building sessions for staff with some knowledge of the
- Language.
- Welsh for front line staff advanced courses.
- Welsh Language Awareness.

Administrative Arrangements

This Scheme has the full authority, support and approval of Bron Afon. The Chief Executive has the overall responsibility for the implementation of the Language Scheme and all our members of staff have a responsibility to know how to implement the Scheme effectively.

The relevant director will be responsible for implementing the clauses of the Language Scheme.

Reviewing the Implementation of the Scheme

The Director of Community Investment and Involvement has responsibility for monitoring and reviewing this Scheme.

We will use our standard comments, compliments and complaints processes to record and deal with feedback about this Scheme and will ensure that it will be possible to monitor specific complaints about the Scheme.

The Chief Executive will report to Bron Afon's Board annually and will send a copy of the report to the Welsh Language Board. The report will follow a format agreed with the Board and will include information about the nature of any complaints and improvement suggestions received from the public in respect of the Scheme.

Publication of Information

We will include a statement in our bilingual Annual Report for public consumption, noting where members of the public can obtain a copy of our annual monitoring report to the Welsh Language Board.

Publicity

We will ensure that members of the public who deal with us know about this Scheme and its contents, and how they can conduct their dealings with us in Welsh.

Our methods of publicising the Scheme and its contents will follow our usual corporate publicity arrangements, and will include ensuring that the Scheme is published in a prominent location on our website.

Welsh Language Scheme Action Plan

| Target/task | Indicator | Officer with responsibility | Target date |
|--|--|---------------------------------------|--------------------|
| Raise awareness of staff about the Welsh Language Scheme. | Intranet site and Staff Forum. | Chief Executive, Head of HR. | April 2011 |
| Publish names of staff who have Welsh language skills on the intranet, as well as their level and ability. | Provision of internal directory on intranet. | Policy & Research Officer. | March 2011 |
| Establish efficient and effective translation process to ensure there is no delay when a response to correspondence is required in Welsh. | No difference in response times for correspondence in Welsh and English. | Policy & Research Officer. | March 2011 |
| Publish internal guidelines and ensure that frontline staff know how to respond to telephone calls from Welsh speakers. | Publication of guidelines. | Policy & Research Officer. | March 2011 |
| Annual Report for public consumption will be published bilingually. | Annual Report and website. | Communications and Marketing Manager. | August 2011 |
| Include a statement in our bilingual Annual Report for public consumption, noting where members of the public can obtain a copy of our annual monitoring report to the Welsh Language Board. | Annual Report and Newsletter. | Communications and Marketing Manager. | August 2011 |
| Audit of all posts with regards to Welsh Language skills required. | Job descriptions and person specifications. | Head of HR | March 2013 |

Cynllun Iaith Gymraeg Tai Cymunedol Bron Afon Cyfyngedig

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf) a Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2006.

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14(1) y Ddeddf ar 30 Mawrth 2011.

1. Datganiad Agoriadol

Nod y Cynllun:

Mae Bron Afon wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Amcanion:

Mae'r Gymdeithas yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cydnabod mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Gymdeithas felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin â hi yn unol â'r egwyddor isod.

2. Cyflwyniad

Cefndir a Gwerthoedd Corfforaethol

Rydym yn sefydliad tai unigryw, seiliedig yn y Gymuned yn Nhorfaen a sefydlwyd yn benodol i fod yn berchen, rheoli a gwella'r cartrefi a arferai fod yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Rydym yn:

- Berchennog tir sylweddol yn y Fwrdeisdref Sirol, gan ddarparu bron 90% o dai fforddiadwy yn y Fwrdeisdref Sirol a darparu gwasanaethu i filoedd o bobl hŷn yn Nhorfaen.
- Un o'r busnesau adeiladu mwyaf yn Ne Ddwyrain Cymru gyda throsiant blynyddol yn y maes hwnnw o'n busnes o £34 miliwn.
- Busnes adeiladu sy'n anelu i ddatblygu ein sgiliau meddal i roi ymagwedd gefnogol i'n tenantiaid.

Ein nod yw:

- Darparu cartrefi fforddiadwy ansawdd uchel ac effeithiol o ran ynni, ardaloedd cymunedol ansawdd uchel a gwasanaethau ardderchog i denantiaid a lesddeiliaid yn Nhorfaen.
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau egniol, diogel, glân ac iach yn gweithio mewn partneriaeth agos gyda phreswylwyr a'r Cyngor.
- Rhedeg sefydliad agored a democrataidd gyda lefelau uchel o ymgyfraniad cymunedol.
- Defnyddio'r adnoddau sydd gennym i'r budd gorau wrth gynyddu i'r eithaf fanteision eraill i'r gymuned, yn cynnwys creu a chynnal swyddi leol, cynyddu sgiliau a lleihau i'r eithaf yr effaith negyddol ar yr amgylchedd.
- Darparu cefnogaeth i bobl sydd ei angen.

Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu barn tenantiaid a staff am y math o sefydliad maent eisiau i Bron Afon fod. Mae Bron Afon yn:

- Gofalu am bobl a chymunedau.
- Angerddol am gyflenwi gwasanaeth ardderchog.
- Blaengar a chreadigol a pharod i gymryd risgiau.
- Gwranddo a dysgu.
- Parchu a gwerthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal.

- Dibynadwy, agored ac onest yn ei holl waith.
- Atebol i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.
- Croesawu her adeiladol.
- Cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Rhoi lle canolog i gynaliadwyedd.
- Balch i fod yn fusnes cymdeithasol di-elw yn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Strwythur ac Ardal Wetihredu

Ein tenantiaid a phreswylwyr Torfaen sy'n berchen ar Bron Afon, a chawn ein llywodraethu gan Fwrdd gyda 15 aelod. Mae Pwyllgor Aelodaeth o 25 aelod yn dal Bwrdd Bron Afon i gyfrif ar ran Aelodau Bron Afon ac yn monitro gwaith Bron Afon yn agos.

Cyflogwn dros 400 aelod o staff. Mae mwyafrif y staff yn gweithio o'n Pencadlys yng Nghwmbran.

Defnyddwyr Gwasanaeth

Prif ddefnyddwyr ein gwasanaeth yw'r rhai sy'n edrych am gartref neu denantiaid

Yr Iaith Gymraeg

Dangosodd cyfrifiad 2001 bod 11.10% o boblogaeth 3 oed a throsodd ym Mwrdeisdref Sirol Torfaen yn medru siarad Cymraeg.

Trosglwyddwyd 8054 cartref i Bron Afon gan y Cyngor yn 2008. Cynhaliwyd ymgynghoriad sylweddol gyda thenantiaid yn 2007 oedd yn cynnwys ymweliadau cartref i fwy na 90% o'r tenantiaid hyn i esbonio'r broses trosglwyddo stoc a sicrhau fod ganddynt yr wybodaeth roeddent ei hangen i'w galluogi i wneud dewis gwybodus mewn pleidlais tenantiaid. Gofynnwyd i bawb yr ymwelwyd â hwy os dymument dderbyn unrhyw wybodaeth yn y Gymraeg ac ni wnaeth neb hynny adeg yr ymweliad. Yn ddilynol, gwnaeth un tenant gais am y Ddogfen Cynnig yn y Gymraeg a darparwyd hynny.

Cafodd y polisi hwn ei lunio sail fod y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg ymysg y bobl hynny sy'n gweithio gyda ni y gwyddom amdanynt yn fach iawn o ran nifer ar hyn o bryd ond y gall unigolion wneud cais a bod ganddynt hawl i ddefnyddio'r Gymraeg os mai dyna eu dewis iaith. Yng nghyswllt darpar ddefnyddwyr yn y dyfodol, rydym eisiau sicrhau fod ganddynt fynediad cyfartal i'n gwasanaethau a swyddi pa iaith bynnag yw eu dewis iaith felly byddwn yn cynhyrchu dogfennau mynediad yn ddwyieithog. Yn olaf, byddwn yn hyrwyddo a chefnogi hybu'r iaith Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant iaith i'n staff ac aelodau.

Caiff y trefniadau hyn eu hadolygu'n barhaus ac os bydd amgylchiadau'n newid, byddwn yn sicrhau y caiff y Cynllun Iaith ei adolygu i adlewyrchu newidiadau yn y proffil iaith gymunedol a bod adnoddau ar gael i adlewyrchu amgylchiadau o'r fath.

Y pwynt cyswllt ar gyfer y Cynllun Iaith yw'r Prif Weithredydd. Medrir cysylltu â'r Prif Weithredydd yn Tŷ Bron Afon, Clôs William Brown, Parc Diwydiannol Llantarnam, Cwmbran, NP44 3AB, ffôn 01633 620 111.

3.Cynllunio a Chyflwyno Gwasanaethau

Polisiâu a Mentrau

Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd, neu wrth ddiwygio polisiâu, bydd y Gymdeithas yn asesu eu heffaith ieithyddol gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn ac yn sicrhau bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.

Bydd y Gymdeithas yn ymgynghori â'r Bwrdd ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwrriad fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar y Cynllun Iaith hwn. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Bwrdd ymlaen llaw.

Byddwn yn sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Gymdeithas o dan y Cod Rheoliadol a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Darparu Gwasanaeth

Anelwn ddarparu gwasanaeth o safon cyfuwch yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Byddwn yn sicrhau drwy wybodaeth a chyfeirio clir fod y rhai sy'n delio gyda ni yn gwybod sut y medrwn gyfathrebu gyda'n gilydd yn Gymraeg ac yn Saesneg fel bo angen. Bydd pob dogfen allweddol yn cynnwys y datganiad dilynol yn y Gymraeg: "Gofynnwch os hoffech unrhyw wybodaeth gennym yn y Gymraeg. Medrwn wneud hynny drwy ymweld â ni neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad islaw neu drwy ffonio 01633 620 111. Os byddech yn ei chael yn haws siarad gyda ni yn Gymraeg, medrwn drefnu i siaradwr Cymraeg fod yn bresennol mewn apwyntiad."

Caiff y datganiad hwn hefyd ei arddangos yn ein holl dderbynfeydd.

Byddwn yn ymdrechu i sefydlu dewis iaith y rhai sy'n delio gyda ni a sicrhau fod gennym nifer ddigonol o staff sy'n gymwys ac yn ddigon hyderus i gynnis cymorth a gwasanaeth yn y Gymraeg. Lle bo angen i sicrhau gwasanaeth ansawdd uchel, byddwn yn atodi sgiliau iaith ein staff gyda gwasanaethau cyfieithu proffesiynol a bydd y cyfleusterau hyn ar gael yn rhwydd osgoi unrhyw oedi diangen wrth ddarparu gwasanaeth.

Gwasanaethau a gyflwynir i'r cyhoedd gan sefydliadau eraill

Swyddogaethau rheoleiddio a gwasanaethau trydydd parti

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â rhannau perthnasol y Cynllun hwn.

Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a byddwn yn anelu cyn belled ag sy'n bosibl i'w darparu o fewn yr un amserlen.

4. Delio â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

1. Mae Bron Afon yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg.
2. Ymdrinnir â phob gohebiaeth yn brydlon ac ni ddylai gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo'i hun arwain at oedi.
3. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn paratoi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).
4. Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl hynny sy'n dymuno delio gyda ni yn y Gymreg.
5. Byddwn yn cytuno ar drefniadau ar gyfer gohebiaeth ac ar gyfer trefnu cyfieithu.

Cyfathrebu dros y ffôn

1. Mae Bron Afon yn croesawu ymholiadau personol yn Gymreg neu yn Saesneg.
2. Bydd staff ein switsfwrdd yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.
3. Er mwyn cwrdd â'n nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal byddwn yn gweithredu'r camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg dros y ffôn:
 - darparu cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt
 - rhoi canllawiau i staff ar sut i ddelio â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â hwy

Cyfarfodydd Cyhoeddus

1. Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan Bron Afon, gan gynnwys cynadleddau a digwyddiadau eraill tebyg, byddwn yn egluro i'r rhai fydd yn bresennol y bydd croeso iddynt gyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.
2. Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y rhai a wahoddir neu os yw'n wybyddus fod siaradwyr Cymraeg am fynychu, dylid cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog. Yn ogystal ag offer cyfieithu, byddwn yn asesu'r angen i aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg fod yn bresennol i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio â'u hymholiadau. Bydd ein staff yn gwneud eu gallu ieithyddol yn glir mewn cyfarfodydd, er enghraifft drwy gyfarch pobl yn ddwyieithog a defnyddio bathodynau "Iaith Gwaith" y Bwrdd.

Cyfarfodydd Eraill

Mae'r Gymdeithas yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn Gymraeg neu'n Saesneg, ond oherwydd prinder siaradwyr Cymraeg ni allwn warantu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Gymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, byddwn yn esbonio'r sefyllfa yn gwrtais a chynnig dewisiadau eraill, megis trefnu cyfieithu neu symud ymlaen gyda'r cyfarfod yn Saesneg.

Cyfathrebu â'r cyhoedd mewn ffyrdd eraill

Byddwn yn ystyried y ffyrdd gorau o gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg ym mha fodd bynnag byddwn yn delio â'r cyhoedd.

5. Wyneb Cyhoeddus y Gymdeithas

Hunaniaeth gorfforaethol ac arwyddion

Mae gennym ddelwedd ddwyieithog yn hyrwyddo Bron Afon ac mae ein safleoedd a gwasanaethau yn defnyddio logo dwyieithog.

Pan fyddwn yn adnewyddu neu ailosod unrhyw arwyddion byddwn yn sicrhau bod fersiynau newydd yn gwbl ddwyieithog. Bydd arwyddion sy'n cael eu codi am y tro cyntaf yn gwbl ddwyieithog.

Bydd maint, safon eglurder ac amlygrwydd y geiriau ar arwyddion yn parchu'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

Cyhoeddi a Phrintio Deunydd yn cynnwys ffurflenni a deunydd esboniadol

Byddwn yn cynhyrchu dogfennau sydd eu hangen i gael mynediad i'n gwasanaethau am y tro cyntaf yn y ddwy iaith.

Bydd hyn yn esbonio:

- Taflenni yn esbonio sut i ddod yn denant, sut i wneud cais am swyddi a sut i ymuno fel aelod, sut i gysylltu â ni.
- Ffurflenni cais ar gyfer tai, cyflogaeth ac aelodaeth.
- Crynodeb o'n Cynllun Iaith Gymraeg yn esbonio hawliau pobl i ddelio gyda ni yn y Gymraeg os dymunant wneud hynny.

Byddwn yn cynhyrchu'r dogfennau hyn ar wahân ym mhob iaith gan roi dewis i bobl fersiwn pa iaith a ddymunant. Byddwn yn adolygu hyn yn flynyddol.

www.bronafon.org.uk

Mae ein gwefan yn Saesneg yn bennaf ond byddwn yn sicrhau:

- Y caiff ein Cynllun Iaith Gymraeg ei ddodi ar ein gwefan.
- Bod yr wybodaeth mynediad y cyfeirir ato uchod hefyd ar gael yn y Gymraeg drwy ein gwefan yn cynnwys tudalen gwefan yn esbonio yn Gymraeg sut y gall pobl ddelio gyda ni yn y Gymraeg os dymunant wneud hynny.

Datganiadau i'r Wasg a Chyflwyniadau

Cyhoeddir y rhain yn Saesneg fel arfer. Gall fod hysbysiadau neu ddigwyddiadau lle ystyrir y byddai cyflwyniad dwyieithog yn addas, a chaiff hyn ei ddarparu.

6. Gweithredu ac Adolygu'r Cynllun

Staffio a Recriwtio

Byddwn yn rhoi trefniadau yn eu lle i sicrhau i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol bod gan y gweithfannau sydd â chyswllt â'r cyhoedd fynediad i staff sydd â'r sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg. Bydd y graddau y ceir hyn yn angenrheidiol neu'n bosibl yn amrywio yn ddibynnol ar y gwasanaeth a'r ardal.

Er mwyn sicrhau bod gennym sgiliau iaith Gymraeg priodol yn y manau cywir, byddwn yn dilyn y drefn ganlynol:

- Byddwn yn nodi'r gweithfannau a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol
- Byddwn yn cynnal archwiliad blynyddol i sefydlu nifer y staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg yn ogystal â lefel eu gallu, a'u lleoliad.
- Caiff canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn eu cymharu er mwyn nodi gweithfannau lle mae prinder staff sydd efo'r sgiliau priodol yn yr iaith Gymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw ddiffyg sgiliau drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Byddwn hefyd yn rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff ynglŷn â disgwyliadau'r Cynllun hwn. Ein harfer safonol fydd cynnwys hyfforddiant o'r fath wrth anwytho staff newydd.

Hyfforddiant Cymraeg

Byddwn yn ymgymryd i gefnogi staff i ddysgu'r Gymraeg lle bynnag y bo modd. Bydd y math o hyfforddiant iaith a gynigir i staff yn addas ar gyfer gofynion personol a phroffesiynol pob unigolyn a gofynion busnes y sefydliad ond medai gynnwys:

- Cyflwyniad cyffredinol i'r iaith ar gyfer dysgwyr llwyr.
- Sesiynau adeiladu hyder ar gyfer staff sydd â pheth gwybodaeth o'r iaith.
- Cyrsiau uwch ar gyfer staff rheng-flaen
- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Trefniadau Gweinyddol

Mae gan y Cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Bron Afon. Y Prif Weithredydd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithrediad y Cynllun iaith ac mae gan bob aelod o staff y Gymdeithas gyfrifoldeb i wybod sut mae gweithredu'r Cynllun yn effeithiol.

Y cyfarwyddydd perthnasol fydd a'r cyfrifoldeb am weithredu cymalau'r Cynllun iaith.

Adolygu Gweithredu'r Cynllun

Mae gan y Cyfarwyddydd Buddsoddiad ac Ymgysylltu â'r Gymuned gyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun hwn.

Byddwn yn defnyddio ein trefn arferol ar gyfer sylwadau, canmoliaeth a chwynion i gofnodi a delio â chwynion am y Cynllun hwn ac yn sicrhau bod modd arolygu cwynion am y Cynllun yn benodol.

Bydd y Prif Adroddiad yn rhoi adroddiad blynyddol i Fwrdd Bron Afon ac yn anfon copi o'r adroddiad at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn dilyn fformat wedi ei gytuno â'r Bwrdd a bydd yn cynnwys gwybodaeth am natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau gwelliant i'r Cynllun a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

Cyhoeddi Gwybodaeth

Byddwn yn cynnwys datganiad yn ein Hadroddiad Blynyddol dwyieithog ar gyfer y cyhoedd, gan nodi lle gall aelodau o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddusrwydd

Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n delio â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a'i gynnwys, a sut gallent ddelio â'r Gymdeithas yn Gymraeg.

Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, gan gynnwys sicrhau caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.

Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg

| Targed/tasg | Dangosydd | Swyddog cyfrifol | Dyddiad targed |
|---|--|---|-----------------------|
| Codi ymwybyddiaeth staff am y Cynllun Iaith Gymraeg | Safle mewnwyd a Fforwm Staff | Prif Weithredydd, Pennaeth Adnoddau Dynol | Ebrill 2011 |
| Cyhoeddi ar y fewnwyd enwau staff sydd â sgiliau yn y Gymraeg, yn ogystal â'u lefel a'u gallu. | Dodi cyfeiriadur mewnol ar y fewnwyd. | Swyddog Polisi ac Ymchwil | Mawrth 2011 |
| Sefydlu proses gyfieithu effeithiol ac effeithlon i sicrhau nad oes oedi pan fo angen ateb Cymraeg i ohebiaeth. | Dim gwahaniaeth mewn amserau ymateb ar gyfer gohebiaeth yn y Gymraeg a Saesneg | Swyddog Polisi a Gwybodaeth | Mawrth 2011 |
| Cyhoeddi canllawiau mewnol a sicrhau fod staff rheng-flaen yn gwybod sut i ymateb i alwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg. | Cyhoeddi canllawiau. | Swyddog Polisi ac Ymchwil | Mawrth 2011 |
| Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol dwyieithog ar gyfer y cyhoedd | Adroddiad Blynyddol a gwefan | Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata | Awst 2011 |
| Cynnwys datganiad yn ein Hadroddiad Blynyddol dwyieithog yn nodi lle gall aelodau o'r cyhoedd gael copi o'n hadroddiad monitro blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg | Adroddiad Blynyddol a Chylchlythyr | Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata | Awst 2011 |
| Archwiliad o'r holl swyddi yng nghyswllt sgiliau iaith Gymraeg. | Disgrifiadau swydd a manylebion person. | Pennaeth Adnoddau Dynol | Mawrth 2013 |